Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Rhaglen Fentora Cynfyfyrwyr

## Canllaw'r Mentor

**Croeso**
Diolch am wirfoddoli fel mentor gyda Rhaglen Fentora Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe. Mae eich cefnogaeth yn gyfraniad hollbwysig at helpu ein myfyrwyr a'n cyn-fyfyrwyr ifanc i gyflawni eu nodau gyrfa, gan gryfhau eu cysylltiad â'r Brifysgol. Os hwn yw'ch profiad cyntaf o fentora neu os oes gennych flynyddoedd o brofiad, mae'r canllaw hwn wedi'i gynllunio i'ch cefnogi drwy eich taith fentora.

### 1. Beth yw Mentora?

Mae mentora yn berthynas gydweithredol lle mae unigolyn mwy profiadol yn cefnogi rhywun wrth iddo fynd i'r afael â heriau gyrfa a datblygiad personol. Yn ei hanfod, mae mentora yn ymwneud â rhannu gwybodaeth, cynnig arweiniad, gwrando'n astud, a gofyn cwestiynau i helpu mentai i dyfu'n broffesiynol.

Mae mentora yn wahanol i hyfforddi neu reoli - yn hytrach na rhoi cyfarwyddyd, mae'n ymwneud yn fwy â thynnu ar eich profiadau chi i gefnogi taith rhywun arall.

### 2. Amcanion y Rhaglen

Mae dau brif nod gan y rhaglen fentora:

- Cefnogi myfyrwyr a graddedigion diweddar (cyn-fyfyrwyr ifanc) i fod yn fwy parod am yrfa ac yn hyderus.
- Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli ystyrlon i gyn-fyfyrwyr sy'n cyfrannu at ddatblygiad myfyrwyr ac yn meithrin cysylltiad gydol oes â'r Brifysgol.

### 3. Pwy byddwch yn ei fentora?

Byddwch yn mentora:

- **Myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig** – sydd yn aml yn archwilio lleoliadau gwaith, interniaethau neu'n paratoi ar gyfer byd gwaith.
- **Cyn-fyfyrwyr ifanc (o fewn pum mlynedd ar ôl graddio)** – fel arfer yng nghamau cynnar eu gyrfaoedd neu'n awyddus i ddatblygu.

- Bydd pob mentai ar wahanol gam yn ei daith a gall ei nodau amrywio, o feithrin rhwydwaith proffesiynol i ddatblygu ei CV neu baratoi ar gyfer cyfweliadau.

### 4. Dechrau Arni

- Bydd menteion yn cael eu dyrannu i chi drwy Cyswllt Prifysgol Abertawe.
- Pan fyddwch wedi'ch cysylltu â'ch mentai, trafodwch a fydd y mentora yn rhyngweithiad un tro neu'n gytundeb hirach (**awgrymir 1-3 mis**).
- Cytunwch ar y **dulliau cyfathrebu** sydd orau gan y ddau barti (Zoom, ffôn, e-bost) a **chyfrinachedd**.
- Eich mentai sy'n gyfrifol am arwain y berthynas: trefnu cyfarfodydd, gosod agendâu a diffinio nodau.

### 5. Eich Rôl fel Mentor

Fel mentor, byddwch yn:

- Gwrando'n astud a heb farn.
- Rhannu eich profiadau proffesiynol mewn modd gonest ac adeiladol.
- Annog hunan-fyfyrio a meddwl yn feirniadol.
- Cynnig cyngor ar CVs, ceisiadau, paratoi am gyfweliad, ac ymdopi â newidiadau mewn gyrfa.
- Gofyn cwestiynau penagored i helpu menteion i feddwl yn fwy eglur (gweler y cwestiynau enghreifftiol isod).
- Helpu menteion i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu, gan ddefnyddio adnoddau fel dadansoddiad SWOT neu'r model CLEAR.

**Nid oes disgwyl** i chi gynnig interniaethau, swyddi, neu gwnsela personol - ond gallwch awgrymu cysylltiadau neu adnoddau defnyddiol lle bo'n briodol.

### 6. Strwythur Cyfarfodydd a Cherrig Milltir

Awgrymwn fod mentoriaid yn neilltuo **1 awr bob mis** tra bydd y berthynas yn para. Gallwch ddewis dilyn y pynciau hyn ar sail cerrig milltir i roi strwythur i'ch cyfarfodydd, ond mae croeso i chi archwilio cerrig milltir hefyd yn ystod eich sgwrs gychwynnol:

**Carreg filltir 1:** Cyflwyniadau ac adolygu CV
**Carreg filltir 2:** Nodi cryfderau, gwerthoedd a meysydd i'w datblygu
**Carreg filltir 3:** Cyngor ar rwydweithio ac adolygu proffil LinkedIn
**Carreg filltir 4:** Mireinio CV ac adborth
**Carreg filltir 5:** Deall manylebau swyddi, ceisiadau a sgiliau trosglwyddadwy
**Carreg filltir 6:** Adolygu datganiad personol a ffug gyfweliadau
**Cyfarfod Olaf:** Myfyrio ac adborth

### 7. Enghreifftiau o Gwestiynau i'w Gofyn i'ch Mentai

- Sut rydych chi'n gobeithio elwa o fentora?
- Beth yw eich angen mwyaf am gymorth ar hyn o bryd?
- Beth yw'r heriau mwyaf rydych chi wedi'u hwynebu? Chwilio am swydd neu gynllunio eich gyrfa?
- Beth rydych chi'n rhagweld y byddwch yn ei wneud dros y tair blynedd nesaf?
- Beth rydych chi'n meddwl y gallwch ei gyflawni'n realistig erbyn ein cyfarfod nesaf?
- Beth sy'n gweithio'n dda i chi hyd yn hyn yn eich bywyd academaidd neu broffesiynol?

Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Rhaglen Fentora Cynfyfyrwyr

### 8. Hygyrchedd a Chynwysoldeb

Bydd rhai menteion yn wynebu rhwystrau ychwanegol - anableddau, anawsterau iaith neu gynrychiolaeth annigonol yn y maes maen nhw wedi'i ddewis. Byddwch yn ystyriol ac yn gynhwysol:

- Gadewch i'r menteion ddewis y dull cyfathrebu sydd orau ganddynt.
- Byddwch yn amyneddgar gyda Saesneg ysgrifenedig - efallai fod dyslecsia gan rai pobl neu efallai eu bod yn siarad Saesneg fel ail iaith.
- Dewiswch leoliadau neu blatfformau hygyrch ar gyfer cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu ar-lein.

### 9. Ffiniau a Chyfrinachedd

- Cadwch drafodaethau'n broffesiynol ac yn gyfrinachol.
- Parchwch breifatrwydd eich mentai ac unrhyw bynciau nad yw am eu trafod.
- Peidiwch â chynnig barn neu ddealltwriaeth bersonol oni bai bod hyn yng nghyd-destun eich profiad proffesiynol.
- Peidiwch â chysylltu â menteion y tu allan i oriau swyddfa oni bai eich bod wedi cytuno ar hyn ymlaen llaw.

### 10. Gorffen y Berthynas

Ar ddiwedd y cyfnod mentora (neu yn gynt, os oes angen), dylai eich mentai drefnu cyfarfod olaf i:

- Fyfyrio ar gynnydd.
- Trafod pwyntiau dysgu allweddol.
- Diolch i chi am eich amser a'ch cefnogaeth.

Os oes angen i chi orffen y berthynas yn gynnar, rhowch wybod i'ch mentai ac e-bostiwch: e.l.ryland@abertawe.ac.uk

### 11. Adborth a Gwerthuso

Mae eich adborth yn ein helpu i wella. Byddwch yn cael eich gwahodd i gwblhau arolwg gwerthuso byr ar ddiwedd y rhaglen. Rydym hefyd yn croesawu awgrymiadau unrhyw bryd - anfonwch eich sylwadau neu'ch profiadau i e.l.ryland@abertawe.ac.uk

### 12. Adnoddau a Chymorth

Gall menteion elwa o'r adnoddau canlynol gan Brifysgol Abertawe:

- Cwrs Datblygu Gyrfa (16 modiwl ar-lein)
- Gwiriwr CV AI a fideo sy'n efelychu cyfweliad
- Cymorth ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol ac sydd wedi'u tangynrychioli.

Os oes angen cymorth ychwanegol ar eich mentai y tu hwnt i gyngor ar yrfaoedd (e.e. pryderon lles neu academaidd), cyfeiriwch eich mentai at wasanaethau cymorth y Brifysgol neu rhowch wybod i'r tîm cyn-fyfyrwyr.

**Diolch**

Drwy ddod yn fentor, rydych yn gwneud cyfraniad hollbwysig at lunio gyrfaoedd myfyrwyr a graddedigion ifanc Abertawe yn y dyfodol. Rydych chi hefyd yn cryfhau cymuned cyn-fyfyrwyr y Brifysgol ac yn ein helpu feithrin diwylliant o gydweithredu, llwyddiant a chysylltiad gydol oes. Rydym yn falch o'ch croesawu i rwydwaith mentora Abertawe.